

Ymateb Llais i'r Fframwaith Polisi Gofal Brys ac Aciwt

Awst 2026

Ar sail eich profiad chi o wasanaethau gofal brys ac aciwt, beth sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd?

Mae Llais wedi clywed yn gyson fod pobl eisiau gwasanaethau gofal brys ac aciwt sy'n ymateb i'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn [Egwyddorion y Bobl](#), a ddatblygwyd drwy ein sgwrs am yr lechyd a Gofal Cymdeithasol yr ydym yn dymuno ei gael, gyda miloedd o bobl ledled Cymru.

Ar draws ein gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned a'n gwasanaeth eiriolaeth cwynion, mae pobl yn dweud wrthym eu bod eisiau gwasanaethau sy'n hygyrch, yn urddasol, yn gydgysylltiedig, yn cyfathrebu, yn ymatebol ac yn deg. Er bod llawer o enghreifftiau o ofal rhagorol, mae profiadau pobl yn dangos nad yw'r egwyddorion hyn yn cael eu darparu'n gyson ledled Cymru eto.

Mae pobl yn dweud wrthym dro ar ôl tro mai ymroddiad, tosturi a phroffesiynoldeb staff yw'r agwedd gryfaf o hyd ar wasanaethau gofal brys ac aciwt. Er gwaethaf pwysau sylweddol, mae llawer o bobl yn disgrifio gweithwyr proffesiynol gofal iechyd a thimau derbynfeydd fel pobl garedig, ofalgar sy'n mynd yr ail filltir i ddarparu sicrwydd a gofal o safon. .

Rydym hefyd wedi clywed profiadau cadarnhaol o'r canlynol:

- Brysbennu a blaenoriaethu'r cleifion mwyaf difrifol wael yn gyflym, gan helpu pobl i deimlo'n hyderus fod brys clinigol yn cael ei adnabod.
- Unedau Mân Anafiadau a gwasanaethau gofal brys yn y gymuned yn darparu mynediad lleol amserol ac yn helpu pobl i osgoi teithiau hir i Adrannau Achosion Brys.

- Cyfathrebu da lle mae staff yn cymryd amser i esbonio beth sy'n digwydd, yn cynnwys pobl mewn penderfyniadau, ac yn rhoi sicrwydd.
- Cydlynu effeithiol rhwng timau, yn enwedig pan fo trawsnewidiadau drwy asesu, trin a rhyddhau yn teimlo'n llyfn ac yn drefnus.
- Staff yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl ag anghenion ychwanegol, gan gynnwys rhai enghreifftiau cadarnhaol o gymorth i bobl awtistig, plant a phobl sy'n profi gorbryder.

Yr hyn y mae pobl yn ei werthfawrogi fwyaf yw cael eu trin fel person, gydag urddas, parch a thosturi. Mae'r profiadau hyn yn meithrin ymddiriedaeth ac yn dangos sut beth yw gofal brys ac aciwt da.

Ar sail eich profiad chi o wasanaethau gofal brys ac aciwt, beth sydd ddim yn gweithio'n dda ar hyn o bryd?

O'r hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym, mae adrannau achosion brys yn ysgwyddo canlyniadau problemau mewn rhannau eraill o'r system. Mae anawsterau o ran cael gafael ar ofal sylfaenol, oedi mewn diagnosteg, diffyg cymorth cymunedol, prinder gweithlu, oedi wrth drosglwyddo gofal, a heriau o ran cael gafael ar ofal cymdeithasol i gyd wedi cael eu disgrifio fel rhai sy'n cyfrannu at bwysau o fewn gwasanaethau brys ac aciwt.

Mae llawer o bobl yn disgrifio cyrraedd gwasanaethau gofal brys ac aciwt ar ôl cael trafferth cael gafael ar gymorth mewn mannau eraill. Mae eraill yn dweud wrthym fod oedi cyn eu rhyddhau oherwydd nad yw'r cymorth cymunedol, iechyd neu ofal cymdeithasol sydd ei angen arnynt ar gael pan fyddant yn barod i adael yr ysbyty. O ganlyniad, mae pobl yn aml yn profi system sy'n teimlo'n dameidiog yn hytrach nag yn gydgysylltiedig.

Y neges gryfaf gan bobl yw bod gofal brys yn aml yn methu â darparu gofal amserol, urddasol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Er bod pobl yn canmol ymrwymiad a phroffesiynoldeb staff yn gyson, maent yn aml yn disgrifio gwasanaethau sy'n gweithredu dan gymaint o bwysau fel bod ansawdd profiad, urddas ac ymdeimlad o ddiogelwch pobl yn cael eu peryglu.

Mae'r prif bryderon yn cynnwys:

- **Gorlenwi a gofal coridor.** Dyma un o'r pryderon mwyaf arwyddocaol a godwyd gyda ni. Er bod gwasanaethau'n barnu bod yr amgylcheddau hyn yn ddiogel yn glinigol, mae llawer o bobl yn dweud wrthym nad ydynt yn teimlo'n ddiogel. Rydym yn aml yn clywed disgrifiadau o adrannau brys fel rhai anhrefnus, gorlawn, sy'n cael eu llethu, gyda rhai pobl yn eu disgrifio fel rhai "fel bod mewn rhyfel".

Mae pobl yn dweud wrthym fod derbyn gofal mewn coridorau, ystafelloedd aros a mannau anghlinigol eraill yn gallu teimlo'n ddiraddiol, yn ofidus ac yn anniogel. Gall colli preifatrwydd, arosiadau hir, anhawster cael gafael ar gyfleusterau sylfaenol, a chyfathrebu cyfyngedig danseilio urddas, llesiant a hyder mewn gwasanaethau ar adeg pan fydd pobl ar eu mwyaf bregus.

- Gall gorlenwi ac arosiadau hir **effeithio'n arbennig ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.** Rydym wedi clywed gan rieni sy'n disgrifio plant yn mynd yn fwyfwy gofidus, blinedig a phryderus ar ôl treulio oriau lawer mewn amgylcheddau gofal brys ac aciwt prysur a swnllyd.

Mae rhieni wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo nad oedd ganddynt unrhyw le priodol i eistedd gyda phlentyn trallodus. I rai plant, yn enwedig rhai sy'n awtistig, sydd ag anghenion ychwanegol neu sy'n wynebu argyfwng iechyd meddwl, gall y lleoliadau hyn fod yn llethol a gallant wneud profiad sydd eisoes yn anodd yn waeth o lawer.

- **Amseroedd aros hir ar hyd y llwybr**, gan gynnwys oedi cyn cael ambiwlans, asesiadau, triniaeth, derbyniadau a rhyddhau, gyda rhai pobl yn aros llawer o oriau neu fwy na diwrnod.
- **Cyfathrebu gwael yn ystod cyfnodau aros**, gan wneud i bobl deimlo'n anghofiedig ac yn ansicr ynghylch beth sy'n digwydd, pa mor hir y gallent aros a beth fydd y camau nesaf.
- **Diffyg gofal cydgysylltiedig**, gyda phobl yn aml yn gorfod ailadrodd eu stori, llywio drwy wasanaethau eu hunain, a chymryd cyfrifoldeb am gydlynu gwahanol rannau o'u gofal.
- **Cymorth annigonol ar gyfer anghenion sylfaenol wrth aros**, gan gynnwys mynediad at fwyd, diod, lleddfu poen, seddi cyfforddus, a chyfleusterau priodol.
- **Profiadau rhyddhau gwael**, gan gynnwys diffyg rhybudd, anawsterau wrth drefnu cludiant, ansicrwydd ynghylch y cymorth sydd ar gael ar ôl rhyddhau, a chydlyniant gwan rhwng ysbytai, gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol.
- **Sylw anghyson i anghenion unigol**, yn enwedig ar gyfer pobl anabl, pobl niwrowahanol, plant a phobl ifanc, siaradwyr Cymraeg a'r rhai sydd angen cymorth cyfathrebu.

Mae teuluoedd yn dweud wrthym nad yw gwasanaethau bob amser yn gwneud addasiadau priodol nac yn darparu amgylcheddau a chyfathrebu sy'n briodol i oedran.

Mae pobl yn dweud wrthym dro ar ôl tro fod y system yn teimlo'n ddigyswllt a bod gormod o gyfrifoldeb ar unigolion, teuluoedd a gofalwyr di-dâl i lywio a chydlynu gofal. I lawer, mae hyn yn creu straen a phryder ychwanegol ar adeg pan maent eisoes yn teimlo'n agored i niwed.

Pa newidiadau mewn ysbytai aciwt fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i bobl sydd angen gofal brys neu aciwt?

Y newid pwysicaf fyddai gwneud Egwyddorion y Bobl yn sylfaen ar gyfer darparu gofal brys ac aciwt a mesur perfformiad ledled Cymru.

Mae pobl yn dweud wrthym yn gyson y dylid mesur llwyddiant nid yn unig yn ôl trwybwn, amseroedd aros a mesurau clinigol, ond hefyd yn ôl a yw gwasanaethau'n hygyrch, yn barchus, wedi'u cydlynu, yn cyfathrebu ac yn ymateb i anghenion unigol.

Mae pobl hefyd yn disgrifio gwahaniaethau sylweddol mewn profiad yn dibynnu ar ble maen nhw'n byw, pryd maen nhw'n mynd yno, a pha dîm sy'n darparu eu gofal.

Dylai mwy o gysondeb wrth ddarparu arferion da ledled Cymru fod yn flaenoriaeth, er mwyn i bawb allu disgwyl yr un safonau gofal, urddas a chyfathrebu ni waeth ble maen nhw.

Mae mynediad yn dal yn bryder penodol i bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Mae pobl yn dweud wrthym y dylid ystyried mynediad o ran amser, pellter ac argaeledd trafnidiaeth, nid dim ond bodolaeth gwasanaeth. Gallai gwasanaeth fod ar gael yn dechnegol, ond ei fod yn anhygyrch yn ymarferol, os nad yw pobl yn gallu teithio iddo, fforddio ei fynychu, cael trafnidiaeth, neu ddychwelyd adref yn ddiogel ar ôl cael triniaeth.

Rydym wedi clywed gan bobl a gafodd eu rhyddhau o ofal brys am 1.30am heb unrhyw ffordd o gyrraedd adref oherwydd nad oedd trafnidiaeth gyhoeddus nac opsiynau tacsï ar gael. Dylai polisi yn y dyfodol roi mwy o bwyslais ar degwch gwledig a realiti ymarferol cael gafael ar ofal brys ac aciwt i bobl sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru.

Nid yw pobl rydym yn clywed ganddynt eisiau i ofal coridor ddod yn rhan dderbyniol o ddarparu gofal brys. Maent yn disgrifio amgylcheddau

gorlawn ac anaddas sy'n peryglu preifatrwydd, urddas a chysur, yn enwedig i'r rhai sydd eisoes yn agored i niwed.

Dylai'r fframwaith gefnogi uchelgais glir i gael gwared ar ofal coridor ledled Cymru, gan gydnabod bod hyn yn symptom o bwysau yn y system yn ehangach ac yn broblem sylweddol ynddi'i hun. Mae mynd i'r afael â gofal coridor yn gofyn am weithredu ar draws y llwybr cyfan, gan gynnwys llif cleifion, capasiti cymunedol, prosesau rhyddhau, cynllunio'r gweithlu, a darpariaeth gofal cymdeithasol.

Er bod pobl yn deall bod gwasanaethau o dan bwysau sylweddol, maent eisiau cymorth ystyrlon tra maent yn aros, gan gynnwys diweddariadau rheolaidd, dulliau rheoli poen, mynediad at fwyd a diod, amgylcheddau cyfforddus, a sicrwydd nad ydynt wedi cael eu hanghofio.

Ar sail yr hyn rydym wedi'i glywed, byddai'r gwelliannau mwyaf ym mhrofiad pobl yn deillio o ganolbwyntio ar y pethau sydd bwysicaf i bobl:

Gwella cyfathrebu

Mae pobl eisiau diweddariadau gonest a rheolaidd drwy gydol eu taith, hyd yn oed pan nad oes newid uniongyrchol. Mae gwybodaeth glir yn lleihau pryder ac yn helpu pobl i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu.

Lleihau oedi a gorlenwi

Mae pobl eisiau gweld camau'n cael eu cymryd i leihau oedi cyn cael ambiwlans, aros mewn adrannau achosion brys, gofal coridor ac oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae hyn yn gofyn am well cydlynu ar draws gwasanaethau ysbytai, cymunedol, gofal cymdeithasol a gofal sylfaenol.

Mae pobl angen hyder bod gorlawnder a gofal coridor yn cael eu mesur, eu monitro a'u gweithredu'n ystyrlon. Byddai mwy o dryloywder ynghylch profiad cleifion, diogelwch cleifion a pha mor gyffredin yw gofal coridor yn helpu i sicrhau bod ymdrechion i wella yn adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf i bobl a chymunedau.

Creu gofal mwy cydgysylltiedig

Ni ddylai pobl orfod ailadrodd eu stori na bod yn gyswllt rhwng gwasanaethau. Byddai rhannu gwybodaeth yn well, llwybrau integredig, a chynllunio rhyddhau cydgysylltiedig yn gwella profiadau'n sylweddol.

Mae pobl hefyd yn dweud wrthym y dylai aelodau o'r teulu a gofalcwyr di-dâl gael eu cydnabod fel partneriaid mewn gofal, a'u cynnwys yn briodol yn y broses o wneud penderfyniadau a chyfathrebu.

Blaenoriaethu urddas a chysur

Mae pobl yn disgwyl mannau priodol i aros a chael gofal, mynediad at fwyd, diod, dulliau lleddfu poen, toiledau a seddi cyfforddus, a gofal sy'n diogelu preifatrwydd ac urddas.

Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Dylai gwasanaethau gydnabod yr unigolyn cyfan, ei anghenion cyfathrebu, amgylchiadau teuluol, diwylliant, iaith, anabledau a niwroamrywiaeth, yn hytrach na chanolbwyntio ar y cyflwr a gyflwynir yn unig.

Defnyddio lleisiau pobl i ysgogi gwelliant

Dylid gwreiddio adborth amser real, adroddiadau tryloyw, a champau gweithredu gweladwy i ymateb i brofiadau pobl yn y gwaith o wella gwasanaethau.

A oes unrhyw grwpiau penodol o bobl y mae eu hanghenion yn gofyn am fwy o sylw mewn gwasanaethau brys ac aciwt?

Mae Llais yn clywed yn gyson fod rhai grwpiau'n wynebu mwy o rwystrau a phrofiadau gwaeth, a bod angen rhoi sylw penodol iddynt:

- Pobl hŷn, gan gynnwys y rhai sy'n byw gydag eiddilwch.
- Pobl sy'n byw â dementia neu nam gwybyddol.

- Pobl anabl a phobl â nam ar y synhwyrâu, anghenion cyfathrebu, neu gyflyrau hirdymor.
- Pobl niwrowahanol, yn enwedig pobl awtistig, a allai deimlo bod amgylcheddau brys prysur yn llethol ac sydd angen addasiadau rhesymol.
- Plant, pobl ifanc a theuluoedd.
- Pobl mewn argyfwng iechyd meddwl.
- Siaradwyr Cymraeg a phobl sydd angen cymorth cyfathrebu neu wasanaethau cyfieithu, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain.
- Pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a phobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig lle mae teithio, trafnidiaeth a mynediad at wasanaethau yn creu heriau ychwanegol.

Mae pobl yn dweud wrthym dro ar ôl tro fod aelodau o'r teulu a gofalwyr di-dâl yn chwarae rhan hollbwysig mewn gofal brys ac aciwt, gan ddarparu cymorth cyfathrebu, trafnidiaeth, eiriolaeth, sicrwydd a gofal parhaus, yn aml ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Fodd bynnag, mae gofalwyr yn aml yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu gan wasanaethau er bod ganddynt gyfrifoldeb sylweddol. Dylid gwreiddio mwy o gydnabyddiaeth, cyfathrebu a chymorth i ofalwyr ar draws llwybrau brys ac aciwt.

Mae gofal mewn coridorau a gorlenwi yn effeithio'n fwy difrifol ar rai grwpiau o bobl nag eraill. Gall pobl hŷn sy'n byw ag eiddilwch, pobl â dementia, pobl mewn argyfwng iechyd meddwl, pobl awtistig, plant a phobl ifanc, y rhai sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes, a phobl ag anghenion

cyfathrebu neu synhwyraidd brofi trallod a niwed penodol pan fyddant yn cael gofal mewn amgylcheddau gorlawn ac anaddas.

Rydym hefyd wedi clywed gan bobl sydd ag imiwnedd gwan, gan gynnwys llawer sy'n cael triniaeth am ganser, sy'n disgrifio'r pryder o aros am gyfnodau hir mewn mannau gorlawn ochr yn ochr â phobl a allai fod yn heintus.

Mae pobl yn dweud wrthym y gall yr amgylcheddau hyn danseilio eu hurddas, eu llesiant a'u hymdeimlad o ddiogelwch ar adeg pan maent eisoes yn teimlo'n agored i niwed. Teimlai rhai nad oedd ganddynt ddewis ond derbyn lefel o risg a oedd yn achosi cryn bryder er mwyn cael gafael ar y gofal yr oedd ei angen arnynt.

A oes gennych unrhyw enghreifftiau o wasanaethau, datblygiadau arloesol neu ddulliau gweithredu sy'n gweithio'n arbennig o dda ac a ddylai gael eu lledaenu'n ehangach ledled Cymru?

Mae pobl yn dweud wrthym eu bod yn barnu ansawdd gofal brys ac aciwt nid yn unig yn ôl pa mor gyflym ac effeithiol y cânt eu trin, ond yn ôl a ydynt yn cael eu trin ag urddas, yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf, yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ac yn cael eu cefnogi drwy ofal cydgysylltiedig sy'n gweithio o'u cwmpas nhw, nid o gwmpas y system.

Rydym wedi clywed enghreifftiau cadarnhaol o ddulliau arloesol sy'n helpu i gyflawni'r nodau hyn, ac y dylid eu nodi, eu gwerthuso a'u lledaenu'n fwy cyson ledled Cymru. Mae'r modelau hyn yn dangos sut y gall cydlynu gwell, ymyrraeth gynharach a dewisiadau eraill yn lle mynd i'r ysbyty wella profiad cleifion a llif y system.

Mae model y Ganolfan Llywio Clinigol a ddatblygwyd yng Nghwm Taf Morgannwg yn dangos sut y gall cyngor arbenigol, brysbennu effeithiol, a mynediad at ddewisiadau eraill yn lle derbyn i'r ysbyty helpu i osgoi presenoldeb diangen mewn Adrannau Achosion Brys, yn enwedig i

breswylwyr cartrefi gofal. Mae'r dull hwn yn cefnogi dewis pobl i gael gofal yn nes at eu cartref ac mewn amgylcheddau cyfarwydd lle mae'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny.

Yn yr un modd, mae datblygiad parhaus gwasanaethau Gofal Brys yr Un Diwrnod a llwybrau atgyfeirio uniongyrchol yn dangos sut y gall gwasanaethau weithio gyda'i gilydd i helpu pobl i gael y gofal iawn yn y lle iawn y tro cyntaf, gan leihau derbyniadau diangen, oedi a throsglwyddo drwy Adrannau Achosion Brys.

Mae gwasanaeth 111 GIG Cymru Pwysu 2 yn enghraifft arall o lwybr amgen sy'n gallu helpu pobl i gael gafael ar gymorth mwy priodol wrth wynebu argyfyngau iechyd meddwl, gan leihau'r pwysau ar Adrannau Achosion Brys ar yr un pryd.

Tynnodd pobl sylw at nifer o ddulliau gweithredu y dylid eu cryfhau a'u mabwysiadu'n fwy cyson ledled Cymru:

- Unedau Mân Anafiadau Lleol a gwasanaethau gofal brys cymunedol, sy'n aml yn darparu mynediad cyflymach, sy'n lleihau'r pwysau ar Adrannau Achosion Brys ac sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gymunedau lleol.
- Modelau brysbennu cyflym sy'n sicrhau bod pobl yn cael eu hasesu'n gyflym ar ôl cyrraedd, a bod y rhai sydd fwyaf mewn angen yn cael ymyrraeth gynnar.
- Gwasanaethau sy'n cyfathrebu'n rhagweithiol â chleifion a theuluoedd drwy gydol eu taith gofal, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl a'u cynnwys.
- Modelau sy'n darparu cynlluniau rhyddhau cydlynol o ddechrau arhosiad yn yr ysbyty, gan gynnwys partneriaid cymunedol a gofal cymdeithasol yn gynharach.

- Dulliau sy'n gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer y rhai sydd eu hangen, gan gynnwys, er enghraifft, pobl awtistig, pobl ag anableddau a'r rhai sydd ag anghenion cyfathrebu unigol.

Yn gyffredinol, nid yw'r hyn y mae pobl ei eisiau yn gymhleth. Maen nhw eisiau gofal brys ac aciwt sy'n hygyrch, yn amserol, yn gydgysylltiedig ac yn dosturiol. Maen nhw eisiau cael eu trin ag urddas a pharch, cael yr wybodaeth ddiweddaraf, cael cefnogaeth wrth iddyn nhw aros a chael gofal drwy lwybrau di-dor sy'n gweithio o gwmpas pobl yn hytrach nag o gwmpas ffiniau gwasanaeth neu sefydliadol.

Mae'r themâu hyn yn gyson ar draws ein gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned ac eiriolaeth cwynion sy'n ymwneud â gofal brys ac aciwt, a'r sgwrs ehangach am lechyd a Gofal Cymdeithasol rydym am ei chael.

Mae Egwyddorion y Bobl yn darparu disgrifiad clir o beth yw ystyr gofal da o safbwynt y cyhoedd, a dylent fod yn sylfaen i'r Fframwaith Gofal Brys ac Aciwt newydd ar gyfer Cymru.